







# Beth yw'r Cyfnod Sylfaen?

# What is the Foundation Phase?

# Croeso

# Welcome

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Cyn hir, bydd eich plentyn yn dechrau ar ei addysg/haddysg gyda ni yn ein hysgol. Mae hon yn garreg filltir o bwys yn ei fywyd/bywyd, er ein bod yn sylweddoli, wrth gwrs, bod y broses ddysgu eisoes wedi dechrau gartref gyda chi a'ch teulu.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu chi a'ch plentyn fel aelodau o gymuned ein hysgol. Rydym yn tanlinellu pwysigrwydd creu partneriaeth â rhieni, er mwyn i ni allu gweithio gyda'n gilydd i helpu eich plentyn ddatblygu a dysgu.

Cyn iddo/iddi ddechrau yn yr ysgol, caiff eich plentyn y cyfle i ymweld â ni am gyfnod er mwyn ymgyfarwyddo â'r ystafell ddosbarth. Cewch chithau hefyd wahoddiad i ddod yma i weld beth sydd gan yr ysgol i'w gynnig i'w disgyblion. Cyn i'ch plentyn ddechrau gyda ni, dylech siarad ag e/hi am yr adeg y bydd e/hi yn dod i'r ysgol — bydd hyn o gymorth iddo/iddi ddod yn fwy hyderus ac annibynnol.

Gwnawn ein gorau i sicrhau y bydd eich plentyn yn setlo'n hapus yn y dosbarth a'r ysgol, ond cofiwch bod croeso i chi ddod i'n gweld os ydych yn poeni am unrhyw beth. Edrychwn ymlaen at gael gweithio gyda chi, er mwyn i bob un ohonom fod yn rhan o gymuned yr ysgol.

Yn gywir,

Gwyn Pleming

Pear Parent / Guardian,

Before long your child will start his/her education with us in our school. This is an important milestone in his/her life, although we do realise, of course, that the learning process has already begun at home with you and your family.

We look forward to welcoming you and your child as members of our school community. We do stress the importance of creating a partnership with parents, so that we can work together to help your child develop and learn.

Before he/she begins school your child will have the opportunity to visit us to familiarise himself/herself with the classroom. You will also be invited along to see what the school has to offer its pupils. Before he/she begins with us, speak to him/her about the time he/she will be coming to school—this will help him/her to become more confident and independent.

We will do our best to ensure that your child will settle happily in class and in school, but do remember that you are welcome to come and see us if you are concerned about anything. We look forward to working with you, so that all of us can be part of the school community.

Yours sincerely,

Gwyn Pleming

# Beth yw'r Cyfnod Sylfaen?

# What is the Foundation Phase?

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn ymwneud â chyfoethogi'r profiadau dysgu sy'n galluogi plant i fod yn greadigol, yn ddychmygus ac i gael hwyl wrth ddysgu.
Bydd y plant yn cael mwy o gyfleoedd i archwilio'r byd o'u cwmpas a deall sut mae pethau'n gweithio drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol perthnasol sy'n hwyliog ac yn rhoi boddhad ac yn berhnasol i'w camau datblygu.
Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod mwy o bwyslais ar ddysgu profiadol, ymwneud gweithredol a datblygu'r elfennau canlynol mewn perthynas â phob plentyn:

- sgiliau a dealltwriaeth
- lles personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol, er mwyn datblygu'r plentyn cyfan
- ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu er mwyn iddo/iddi fwynhau hynny a bod eisiau parhau â'i addysg/haddysg am gyfnod hwy
- hunan-barch a hunanhyder er mwyn arbrofi, archwilio, dysgu pethau newydd a ffurfio cyd perthnasau newydd
- sgiliau creadigol, mynegiannol ac arsylwadol er mwyn annog eu datblygiad fel unigolion sydd â gwahanol ffyrdd o ymateb i brofiadau
- gweithgareddau yn yr awyr agored lle byddan nhw'n cael profiad personol o ddatrys problemau bywyd a dysgu am gadwraeth a chynaliadwyedd.

The Foundation Phase is about enhancing the learning experiences which enable children to be creative, imaginative and to have fun whilst learning.
Children will be given more opportunities to explore the world around them and to understand how things work through engaging in relevant practical activities which are fun and enjoyable and relevant to their development stages.
The Foundation Phase places greater emphasis on experiential learning, active
involvement and developing each child's:


- skills and understanding
- personal, social, emotional, physical and intellectual well-being, so as to develop the whole child
- positive attitudes to learning so that they enjoy it and will want to continue with their education for longer
- self-esteem and self-confidence to experiment, investigate, learn new things and form new relationships
- creative, expressive and observational skills to encourage their development as individuals with different ways of responding to experiences
- activities in the outdoors where they have first-hand experience of solving real-life problems and learn about conservation and sustainability.

# Pam cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen?

Mae'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar y camau datblygu y bydd pob plentyn yn symud drwyddynt

Chwech Maes Dysgu y Cyfnod Sylfaen

Mae chwech Maes Dysgu i'r Cyfnod Sylfaen, lle mae modd cydblethu gweithgareddau chwarae strwythuredig ac ysgogol yn y profiadau dysgu. Mae'r cwricwlwm wedi ei lunio o amgylch y saith maes hyn er mwyn cefnogi ac annog lles a datblygiad personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol eich plentyn. Pan fydd eich plentyn yn dechrau'r ysgol bydd e/hi yn cael llawer o brofiadau fydd yn ei helpu e/hi i ddatblygu fel unigolyn. Dyma'r meysydd dysgu:




# Why Introduce the Foundation Phase?

The curriculum focuses on the development stages through which each child progresses

Six Areas of Learning in the Foundation Phase

The Foundation Phase has six Areas of Learning, where stimulating structured play activities can be woven into the learning experiences. The curriculum is built around these seven areas to support and encourage your child's personal, social, emotional, physical and intellectual well-being and development. When your child starts school he/she will have many experiences that will help him/her develop as an individual. The areas of learning are as follows:



**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol**

Mae'r Maes Dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn dysgu amdanyn nhw eu hunain a'u perthynas â phlant ac oedolion eraill. Byddan nhw'n cael eu hannog i fagu hunan-barch, eu gwerthoedd personol a moesol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, er mwyn dathlu gwahanol ddiwylliannau a helpu plant i adnabod a meithrin ymwybyddiaeth gadarnhaol o'u diwylliant personol a diwylliannau eraill.
Cefnogir y plant er mwyn iddyn nhw ddod yn feddylwyr ac yn ddysgwyr hyderus, cymwys ac annibynnol.

**Personal and social development, well being and cultural diversity**

This Area of Learning focuses on children learning about themselves and their relationships with other children and adults. They are encouraged to develop their self-esteem, their personal beliefs and moral values.
The Foundation Phase supports the cultural identity of all children, to celebrate different cultures and help children recognise and gain a positive awareness of their own and other cultures.
Children are supported in becoming confident, competent and independent thinkers and learners.

**Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu**

Mae'r Maes Dysgu hwn yn canolbwyntio ar drochi plant mewn profiadau a gweithgareddau iaith. Bydd eu sgiliau yn datblygu drwy siarad, arwyddo/cyfathrebu a gwrando.
Byddan nhw'n cael eu hannog i gyfleu eu hanghenion, eu teimladau a'u meddyliau ac ailadrodd eu profiadau. Bydd rhai plant yn cyfathrebu drwy ddulliau heblaw siarad. Bydd plant yn cyfeirio at eu bwriadau drwy holi cwestiynau, lleisio/mynegi barn, ymateb i sefyllfaoedd a gwneud dewisiadau drwy amrywiaeth o gyfryngau. Byddan nhw'n cael eu hannog i wrando ac ymateb i eraill.

**Language, literacy and communication skills**

This Area of Learning focuses on children being immersed in language experiences and activities. Their skills develop through talking, signing/communicating and listening.
They are encouraged to communicate their needs, feelings and thoughts and retell experiences. Some children will communicate by means other than speech. Children refer to their intentions by asking questions, voicing/expressing opinions, reacting to situations and making choices through a variety of media. They are encouraged to listen and respond to others.





## Datblygiad Mathemategol

Mae'r Maes Dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fathemateg drwy ddatrys problemau.
Byddan nhw'n defnyddio rhifau yn eu gweithgareddau bob dydd ac yn datblygu ystod o ddulliau hyblyg ar gyfer gweithio gyda rhifau yn y pen, mewn trefn cyd-destunau, gan symud ymlaen at ddulliau mwy ffurfiol o weithio a chofnodi pan fyddan nhw'n barod yn ddatblygiadol.
Byddan nhw'n ymchwilio i briodweddau siâp, yn dosbarthu ac yn didoli, cyfateb, dilyniannu a chymharu gwrthrychau ac yn creu patrymau a pherthnasoedd syml.
Byddan nhw'n defnyddio iaith fathemategol briodol i esbonio eu rhesymu ac yn cyflwyno eu gwaith mewn nifer o wahanol ffyrdd gan ddefnyddio gwrthrychau, lluniau, diagramau, geiriau, symbolau a TGCh.

## Mathematical Development

This Area of Learning focuses on children developing their skills, knowledge and understanding of mathematics by solving problems.
They use numbers in their daily activities and develop a range of flexible methods for working mentally with number, in order of contexts, moving onto using more formal methods of working and recording when they are developmentally ready.
They investigate the properties of shape, they sort, match, sequence and compare objects and they create simple patterns and relationships.
They use appropriate mathematical language to explain their reasoning and present their work in a variety of ways using objects, pictures, diagrams, words, symbols and ICT.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Mae'r Maes Dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn cael profiad o'r byd cyfarwydd a hynny drwy ymholi ac ymchwilio.
Bydd y plant yn cael profiadau sy'n cynyddu eu chwilfrydedd am y byd o'u cwmpas i'w helpu i ddeall mwy am ddigwyddiadau yn y gorffennol, pobl a lleoedd, pethau byw a'r gwaith y mae pobl yn ei wneud.
Maen nhw'n dysgu sut i arddangos gofal, cyfrifoldeb, pryder a pharch at bob peth byw a'r amgylchedd. Byddan nhw'n dysgu sut i fynegi eu syniadau, eu safbwyntiau a'u teimladau eu hunain gyda dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd.

## Knowledge and understanding of the world

This Area of Learning focuses on children experiencing the familiar world through enquiry and investigation.
Children are given experiences that increase their curiosity about the world around them so that they begin to understand past events, people and places, living things and the work people do.
They learn to demonstrate care, responsibility, concern and respect for all living things and the environment. They learn to express their own ideas, opinions and feeling with imagination, creativity and sensitivity.

## Meysydd Dysgu Newydd

Bydd sgiliau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn cael eu datblygu drwy'r holl weithgareddau amrywiol y bydd y plant yn ei wneud drwy gydol y flwyddyn

## New areas of learning

The pupils literacy and numeracy skills will be developed through all the various activities that the pupils will be doing throughout the year.

## Datblygiad Corfforol

Mae'r Maes Dysgu hwn yn canolbwyntio ar ddatblygiad corfforol plant. Bydd brwdfrydedd dros symud, ac egni ar gyfer symud yn cael eu hybu'n barhaus, a hynny drwy eu helpu i ddefnyddio'u cyrff yn effeithiol, drwy annog ymwybod â gofod, cydbwysedd, rheolaeth a chydsymud a datblygu sgiliau echddygol a medrau trafod.
Mae'r plant yn cael eu hannog i fwynhau gweithgareddau corfforol a bydd eu hymdeimlad o hunaniaeth sy'n datblygu wedi'u gysylltu'n agos â'u hunanddelwedd, eu hunan-barch a'u hyder eu hunain.
Caiff y plant eu cyflwyno i'r cysyniadau o iechyd, hylendid a diogelwch a phwysigrwydd deiet, gorffwys, cysgu ac ymarfer corff.

## Physical Development

This Area of Learning focuses on children's physical development. Enthusiasm and energy for movement is continually promoted through helping them to use their bodies effectively, by encouraging spatial awareness, balance, control and coordination and developing motor and manipulative skills.
Children are encouraged to enjoy physical activity and their developing sense of identity is linked closely to their own self-image, self esteem and confidence.
Children are introduced to the concepts of health, hygiene and safety and the importance of diet, rest, sleep and exercise.

## Datblygiad Creadigol

Mae'r Maes Dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn datblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd drwy'r cwricwlwm.
Mae eu cywreinrwydd naturiol a'u hawydd i ddysgu yn cael eu hysgogi gan brofiadau synhwyraidd beunyddiol.
Bydd y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol, dychmygus a mynegiannol ym maes celf, crefft, dylunio, cerddoriaeth, dawns a symudiad.
Bydd y plant yn archwilio ystod eang o ysgogiadau, yn datblygu eu gallu i gyfathrebu ac yn mynegi eu syniadau creadigol a myfyrio ar eu gwaith eu hunain.


## Creative Development

This Area of Learning focuses on children developing their imagination and creativity through the curriculum.
Their natural curiosity and disposition to learn is stimulated by everyday sensory experiences.
Children engage in creative, imaginative and expressive activities in art, craft, design, music, dance and movement.
Children explore a wide range of stimuli, develop their ability to communicate and express their creative ideas and reflect on their work









Mae'n bwysig cofio nad yw plant yn dysgu'r pethau hyn ar wahân — mae cyswllt agos rhwng y Meysydd Dysgu a'u gweithgareddau. Mae'n hanfodol bod anghenion a diddordebau'r plant yn ganolog i'r dysgu, a'u bod yn datblygu agwedd gadarnhaol tuag at y broses ddysgu.

Ein nôd yw creu amgylchfyd dysgu sy'n rhoi i blant amrywiaeth o brofiadau fydd yn datblygu sgiliau penodol ac yn symud eu dysgu ymlaen.


It is important to remember that children don't learn these things separately— the Areas of Learning and their activities link closely together. It is essential that the needs and interests of the children are central to the learning, and that they develop a positive attitude to the learning process. Our aim is to create a learning environment that will give children a variety of experiences that develop specific skills and move their learning forward.



# Sut byddwn ni'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen?

Defnyddir y dulliau canlynol yn ein hysgol ni i weithredu'r Cyfnod Sylfaen


Cynllunio'r Ddarpariaeth Barhaus oddi mewn i wahanol ardaloedd (dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd) fel yr esbonir yn yr adran ddilynol.
Cynllunio cyfleoedd i gyfoethogi a datblygu profiadau a sgiliau'r disgyblion.
Cynllunio Tasgau Ffocws penodol.



# How do we introduce the Foundation Phase?

The following methods are used in our school to implement the Foundation Phase

Planning the Continuous Provision within various areas (both indoors and out) as explained in the following section.
Planning opportunities to enhance and develop pupils' experiences and skills.
Planning specific Focus Tasks



# Darpariaeth barhaus

Y Ddarpariaeth Barhaus yn yr ystafell ddosbarth yw'r gwahanol ardaloedd sy'n cael eu gosod er mwyn datblygu sgiliau e.e. ardal farcio, ardal ymchwilio, ardal fathemateg, TGCh, ardal berfformio ac ati. Caiff yr ardaloedd hyn eu gwerthuso'n rheolaidd er mwyn adolygu eu diben a datblygu sgiliau.











# Continuous provision

Continuous Provision within the classroom are the various areas set up to develop skills e.g. marking area, investigative area, mathematical area, ICT, performing area etc. These areas are evaluated on a regular basis to review their purpose and the development of skills.

# Cyfoethogi'r ddarpariaeth

Ystyr cyfoethogi'r ddarpariaeth yw pan fydd aelodau staff yn gosod adnoddau ychwanegol yn y gwahanol ardaloedd oddi mewn i'r ystafell ddosbarth neu yn tu allan er mwyn targedu ac ymarfer sgiliau penodol i'w datblygu e.e. gosod adnoddau yn seiliedig ar dasgau blaenorol ar siapiau 2D yn y gornel dywyll i ddatblygu dealltwriaeth y plant o siapiau 2D.











# Enhancing the provision

Enhancing the provision is when members of staff place additional resources into the various areas within the classroom or outdoors to target and practise specific skills for development e.g. placing resources based on previous tasks on 2D shapes in the dark corner to develop pupils' understanding of 2D shapes.

## Tasgau Ffocws

Gweithgareddau dan arweiniad oedolyn yw Tasgau Ffocws, lle mae sgiliau, cysyniadau a gwybodaeth yn cael eu cyflwyno i'r disgyblion. Gall tasgau ffocws ddigwydd mewn grwpiau mawr, grwpiau bychain/parau neu unigol a byddant yn amrywio yn ôl y gweithgaredd. Nid tasg 'ar ei phen ei hun' yw'r Dasg Ffocws. Caiff y disgyblion gyfle i ymarfer y sgiliau â gyflwynwyd mewn Tasgau Ffocws yn y Ddarpariaeth Barhaus.












## Focus Tasks

Focus tasks are activities lead by an adult where skills, concepts and information are introduced to pupils. Focus tasks can be in large groups, small groups/pairs or individual and will vary according to the activity. The Focus Task is not a 'stand alone'. Pupils have the opportunity to practise the skills introduced in Focus Tasks in the Continuous Provision.

# Sut fydda' i'n gwybod bod fy mhlentyn yn dod yn ei flaen/blaen?




**Beth sy'n digwydd pan fydd eich plentyn yn dechrau'r ysgol?**
Gwneir asesiad cychwynnol pan fydd eich plentyn yn dechrau yn yr ysgol er mwyn pennu beth y mae e neu hi yn gallu ei wneud a'i ddeall. Bydd y wybodaeth hon yn helpu sicrhau bod profiad cyntaf eich plentyn o fyd addysg yn briodol ar gyfer ei gam/cham datblygiad a bod y gweithgareddau a'r profiadau fydd wedi eu cynllunio ar ei gyfer/chyfer yn eu helpu i symud ymlaen yn ei ddysgu/dysgu.

•Defnyddir asesu fel dull gwerthfawr o gasglu gwybodaeth am ddatblygiad a chyrhaeddiad eich plentyn yn eu cyfanrwydd yn ystod ei amser/hamser yn y Cyfnod Sylfaen (3-7 oed).

•Mae cyfathrebu rhwng holl aelodau staff y Cyfnod Sylfaen yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad pob plentyn yn y Cyfnod Sylfaen. Bydd pob aelod o Dîm y Cyfnod Sylfaen yn arsylwi ac yn cofnodi cynnydd eich plentyn yn barhaus, gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau.

•Trafodir canfyddiadau ac arsylwadau yn ystod cyfarfodydd dosbarth, a hynny'n wythnosol, a defnyddir y rhain i benderfynu ar y ffordd ymlaen ar gyfer unigolion yn ogystal â grwpiau plant.

•Mae cyswllt cadarn iawn rhwng cynllunio ac asesu pan fyddwn yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn ein hysgol ni. Bydd hyn yn sicrhau fod pob disgybl yn datblygu'r sgiliau priodol, gan adeiladu ar ei brofiadau/phrofiadau dysgu blaenorol.

•Cynhelir dwy noson rieni, a diwrnod agored yn ystod y flwyddyn a rhoddir adroddiad manwl i'r rhieni ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

## How will I Know if my child is progressing?

Your children will not be playing freely all day! All Play will be planned and purposeful.

They will have the opportunity to explore, discover and practise within their continuous learning areas

They will have regular focus tasks

**What happens when your child starts school?**

An initial assessment is made when your child begins at school to determine what he or she can do and understand. This information will help to ensure that your child's first experience of education is appropriate to their stage of development and the activities and experiences planned for them will help them to move forward in their learning.

- Assessment is used as a valuable method to gather information on the development and attainment of your child as a whole during their time in the Foundation Phase (3-7 years).

- Communication between all the Foundation Phase staff plays an integral part in the development of every child within the Foundation Phase. Every member of the Foundation Phase Team observe and record your child's progress continuously, using a variety of strategies.

- Findings and observations are discussed during class meetings, on a weekly basis, and used to decide on the way forward for individuals as well as groups of children.

- There is a very strong link between planning and assessment when implementing the Foundation Phase in our school. This ensures that all pupils develop the appropriate skills, building on their previous learning experiences.

- There are two parents evenings and an open day during the course of a year and a detailed report is given to parents at the end of the academic year.

# Dulliau Dysgu a Strategaethau Addysgu:

# Learning Styles and Teaching Strategies:

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gofyn am ddull dysgu sy'n gweddu orau i'r dysgu gweithredol sy'n nodweddu'r cyfnod addysg hwn a'r amryfal ffyrdd y bydd plant yn dysgu. Tîm y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol yw'r hyrwyddwyr dysgu gyda'r plentyn wrth graidd yr addysgu a'r dysgu.

Dulliau Dysgu -.
Mae gan blant unigol wahanol ddulliau dysgu neu hoff ffyrdd o ryngweithio â'r amgylchedd. Bydd y dysgu yn gwella pan roddir ystyriaeth i'r dulliau dysgu. Er mwyn i ddysgu'r plant fod ar ei fwyaf effeithiol, rhaid i'r profiadau dysgu fod yn rhai ystyrlon i'r plant. Rhoddir cyfleoedd i'r plant wneud dewisiadau yn ôl eu hoff ffyrdd o ddysgu, neu i ddewis drwy gyfuniad o ddulliau dysgu.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth i'r canlynol wrth ddysgu dan do ac yn yr awyr agored:
• Amgylchedd sy'n rhoi ysgogaeth weledol dan do a'r tu allan.
• Cyfleoedd ar gyfer amserau gweithgar ac amserau tawel dan do a'r tu allan.
• Cydbwysedd o weithgareddau dan arweiniad ymarferwr a rhai a gychwynnwyd gan y plentyn.
• Cyfleoedd ar gyfer dysgu profiadol a thrafodaeth fyfyriol.

**Strategaethau Addysgu** -.
Bydd y staff yn dewis strategaethau addysgu priodol yn unol â'r gweithgareddau y byddan nhw'n ymwneud â nhw.

<u>Gall y rhain gynnwys:</u>
• Gweithgaredd cyfeiriedig er mwyn arddangos sgil newydd a rhoi esboniadau clir ar wybodaeth.
• Gweithgaredd datrys problemau yn seiliedig ar chwarae, a allai alw am ymyriad er mwyn cefnogi neu 'sgaffaldio' y dysgu, gosod cwestiynau heriol neu roi atgyfnerthiad drwy ganmol a rhoi anogaeth.
• Gall gweithgarwch chwarae rôl alw am gyfranogiad rhyngweithiol er mwyn ymestyn sgiliau iaith, gyda'r staff a'r plant ar y cyd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd.

The Foundation Phase requires a teaching approach that is best suited to the active learning that characterises this phase of education and the multiple ways in which children learn. The Foundation Phase team within the school are the facilitators of learning with the child at the heart of learning and teaching.

Learning styles-.
Individual children have different learning styles or preferred ways of interacting with the environment. When learning styles are taken into account learning is enhanced. For children's learning to be most effective the learning experiences are meaningful for the children. Opportunities are given for children to make choices according to their preferred style of learning, or to choose through a combination of learning styles.

The school takes into consideration the following when learning indoors and outdoors:
• A visually stimulating environment indoors and outdoors.
• Opportunities for active and quiet times indoors and outdoors.
• A balance of practitioner-directed and child-initiated
activities.
• Opportunities for experiential learning and reflective discussion.
•

**Teaching strategies**-.
Staff select appropriate teaching strategies according to the activities in which they are involved.

<u>These may include:</u>
• A directed activity to demonstrate a new skill and to give clear explanations of information.
• A play-based, problem-solving activity which might require intervention to support or 'scaffold' learning, pose challenging questions or give reinforcement with praise and encouragement.
• A role-play activity might require interactive participation to extend language skills, with staff and children involved together in the activity.

# Dysgwyr Annibynnol

# Independent Learners

Byddwn yn annog plant yn y Cyfnod Sylfaen i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Gwneir hyn mewn nifer o wahanol ffyrdd:

We encourage children in the Foundation Phase to become independent learners. This is done in a variety of way

darparu amgylchfyd dysgu trefnus, ysgogol, lle mae adnoddau ar gael yn ddidrafferth i blant

providing a well-organised, stimulating learning environment, where resources are easily accessible to children

y plant yn ymwneud â'r dasg o ddewis adnoddau, bod yn gyfrifol am ofalu amdanynt a'u dychwelyd ar ôl eu defnyddio, er mwyn datblygu blaengarwch ac ymdeimlad o gyfrifoldeb

children being involved in choosing resources, being responsible for looking after them and returning them after use, to develop initiative and a sense of responsibility

caniatáu i'r plant gychwyn rhai o'u gweithgareddau eu hunain trwy drafod gyda'r staff (mae hyn yn helpu hybu cyfranogiad ar lefel uchel ac agwedd meddwl gadarnhaol tuag at ddysgu, ar unwaith yn ogystal ag yn y tymor hwy)

allowing children to initiate some of their own activities in negotiation with staff (this helps to promote a high level of involvement and positive dispositions to learning, both immediately and in the longer term)

galluogi'r plant i ddilyn diddordeb yn drylwyr; dychwelyd at weithgarwch ar achlysuron olynol

to enable children to pursue an interest in depth; to return to an activity on successive occasions

annog plant i fod yn bartneriaid gweithredol wrth gynllunio eu gweithgareddau dysgu, yn eu gallu i ymgymryd â chyfrifoldebau ac wrth ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer dysgu annibynnol

encouraging children to be active partners in planning their learning activities, in their capacity to undertake responsibilities and develop the skills required for independent learning

annog y plant i rannu eu dysgu gydag eraill a gwerthuso'r hyn maen nhw wedi ei fwynhau, yn falch ohono neu'r hyn y gallan nhw ei wella yn y dyfodol

encourage children to share their learning with others and evaluate what they have enjoyed, are pleased with or what they might improve in the future

## Partneriaeth gyda Rhieni / Gwarcheidwaid:

Byddwn yn gweithio'n agos gyda chi i sicrhau dilyniant o ran y ddarpariaeth gartref ac yn yr ysgol drwy:
- Gofyn am wybodaeth gyffredinol am eich plentyn
- Rhannu gwybodaeth am y gweithgareddau dysgu
- Trafod datblygiad y plant
- Ymgynghori ar fater cynnydd y plant

## Trefniadau ar gyfer cyfarfod â Rhieni darpar ddisgyblion:

Byddwch chi a'ch plentyn yn cael eich gwahodd i fynychu ein Sesiwn Agored yn y Dosbarth Meithrin cyn iddo/ iddi ddechrau'n swyddogol yn Ysgol Llanfair Pwllgwyngyll. Yn ystod y sesiwn hon, byddwch yn cael eich cyflwyno i'r ysgol a chewch gyfle i ofyn cwestiynau. Byddwch chi fel rhieni / gwarcheidwaid yn cael gwybodaeth am ein hysgol a gofynnir i chi hefyd lanw Ffurflen Fynediad a nifer o wahanol ddogfennau eraill.





## Partnership with Parents / Guardians:

We work closely with you to ensure that there is continuity in provision at home and school by:
- Inviting general information about your child
- Sharing information about the learning activities
- Discussing children's development
- Consulting on children's progress

## Arrangements for meeting Parents of prospective pupils:

You and your child will be invited to attend our Nursery Open Session before he/ she officially starts at Llanfair Pwllgwyngyll.
During this session you will be introduced to the school and have an opportunity to ask questions. You as parents/ guardians will be provided with information about our school and also asked to complete an Admission Form and various other documentation.

© Ysgol Llanfair Pwllgwyngyll 2016